**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**6/12/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0058 Hyd Toriad y Cynulliad/ Amount of Assembly Recess

04 Dec 2001 Raised by Jocelyn Davies, Elin Jones

2 Subscribers:

Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Dafydd Wigley

*Hyd Toriad y Cynulliad*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei ofid ynghylch hyd y toriad y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cred ei bod yn ormodol ac yn annerbyniol torri ar waith Llywodraeth y Cynulliad am dri mis dros yr haf a chytunir y dylai'r Cynulliad benderfynu faint o wythnosau y dylai ymgynnull yn ôl y gwaith sydd ganddo i'w wneud yn hytrach na sawl wythnos o doriad y dymuna Aelodau'r Cynulliad eu cael.*

*Amount of Assembly Recess*

*The National Assembly expresses concern at the amount of recess weeks agreed for next year. It believes that it is excessive and unacceptable for the Assembly Governments Business to be curtailed for three months over the summer period and agrees that the Assembly should decide how many weeks it sits for by the amount of work it has to do rather than how many weeks recess that Assembly Members wants.*

# OPIN-2001-0056 Ambiwlansys i Giwba/Ambulances for Cuba

28 Nov 2001 Raised by Richard Edwards, Helen Mary Jones

2 Subscribers:

Janet Ryder
Lorraine Barrett

*Ambiwlansys i Giwba*

*Mae'r Cynulliad hwn yn cymeradwyo'r cymorth dyngarol uniongyrchol a ddarperir gan yr elusen Salud International yn ei waith i ailadeiladu Gwasanaeth Ambiwlans Ciwba, ac yn croesawu'r cyfle i Gymru hybu cydweithrediad rhyngwladol trwy gynnig cymorth dyngarol. Rydym yn annog Aelodau i gefnogi'r fenter trwy gyfraniadau ariannol a chyfraniadau eraill.*

*Ambulances for Cuba*

*This Assembly commends the direct humanitarian aid provided by the charity Salud International in its work to rebuild the Cuban Ambulance service, and welcomes the opportunity for Wales to further international co-operation by offering humanitarian assistance. We encourage Members to support the initiative through financial and other contributions.*